# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 14 MAI 2015 YN NHŶ HASTINGS

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; a, Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygu); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygu).

**Ymddiheuriadau:** Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygu) a Miss Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa).

**Amser dechrau:** 9:30 am
**Amser gorffen:** 11:25 am

## 1. Datganiadau o fuddiant

1.1. **Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf:** Roedd y Swyddog Arolygu sy'n cynnal yr arolwg wedi datgan buddiant fel preswylydd ac etholwr yn ward Pentre'r Eglwys yn Llanilltud Faerdref, a'i fod wedi byw y drws nesaf i gynghorydd y ward hon ers 20 mlynedd. Nododd y Comisiwn y datganiad.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Cynllun Gweithredol y Comisiwn wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, mynegodd y Cadeirydd fod y Ddogfen Fframwaith wedi'i chytuno, ond nad yw'r Comisiwn wedi derbyn copi wedi'i lofnodi, hyd yn hyn.

2.2. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'n mynychu cyfarfod ag Un Llais Cymru ym mis Gorffennaf.

2.3. Crybwyllodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol, a ystyriodd y Bil Llywodraeth Leol, wedi argymell cael cyfnod ymgynghori cychwynnol ar gyfer pob un o'r Arolygon Cychwynnol arfaethedig.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2015

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2015, yn dilyn mân newidiadau.

## 4. Materion yn codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 6 Mai gan y Prif Weithredwr ar faterion yn codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

**Mater 2** **(Holiadur Ôl-arolwg)** mae'r holiadur yn fyw ar hyn o bryd, ac mae ar agor ar gyfer ymatebion am 56 diwrnod.

**Mater 15** **(Dogfen Fframwaith)** mae'r Comisiwn yn aros am gopi wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru.

**Mater 16** **(Arolwg Cymunedol Sir y Fflint)** caiff crynodeb o'r cynrychiolaethau a dadansoddiad eu hystyried gan y Comisiwn yn y cyfarfod ar 16 Mehefin.

**Mater 21** **(Penodi Comisiynwyr)** cynhelir cyfweliadau ar 1 a 4 Mehefin.

**Mater 30** **(Cynllun Gweithredol)** mae'r Comisiwn yn aros am gopi wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru.

## 5. Arolwg Staff 2014

5.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 27 Ebrill 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Byddai canlyniadau'r arolwg staff yn cael eu hystyried yn nes ymlaen yng nghyfarfod Is-bwyllgor y Gweithlu.

5.2. **Penderfynwyd** nodi'r adroddiad a'r arolwg staff manwl, a chofnodi gwerthfawrogiad y Comisiwn o'r canlyniadau, sy'n gadarnhaol iawn yn gyffredinol.

## 6. Rheoli Risg

6.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 30 Ebrill 2015 gan y Rheolwr Cyllid, a'r Gofrestr Risg sy'n gyfredol ar ddiwedd mis Ebrill.

6.2. **Penderfynwyd** nodi a chytuno â'r Adroddiad.

## 7. Adroddiad Cyllidol

7.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 5 Mai 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nododd** y Comisiwn y pennwyd cymorth grant o £520,000, a bod y tanwariant ar gyfer y mis o ganlyniad i'r swydd wag yn y Comisiwn.

7.3. Crybwyllodd yn o’r Aelodau’r mater o’r bil yswiriant uchel y mis diwethaf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid y byddai’r Comisiwn yn parhau i gwestiynu’r bil nes i’r swm gael ei gyfiawnhau neu ei leihau.

7.4. Crybwyllwyd y cafodd swm ei ddwyn ymlaen o’r flwyddyn ariannol ddiwethaf i gwmpasu costau TG a meddalwedd - yn benodol, gosod yr uwchraddiad newydd i feddalwedd MapInfo 12.5. Roedd gosod y feddalwedd hon yn peri problemau a byddai oedi wrth ei gosod yn cael effaith negyddol ar yr arolygon sydd ar ddod. Os na chaiff y mater ei ddatrys erbyn cyfarfod y Comisiwn ym mis Mehefin, caiff ei ystyried yn risg i’r Comisiwn a’i gynnwys yn y Gofrestr Risg.

7.5. **Penderfynwyd** nodi’r adroddiad ac ystyried y materion a gofnodwyd yn 7.3 a 7.4 eto.

## 8. Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad Terfynol Drafft dyddiedig 6 Mai 2015 gan y Swyddog Arolygu. Oherwydd problemau parhaus â meddalwedd a TG, nid oedd y drafft yn cynnwys mapiau o’r newidiadau arfaethedig. Crybwyllwyd y caiff fersiwn llawn o’r Adroddiad Terfynol ei anfon at y Comisiynwyr mewn neges e-bost wedi i’r problemau TG a meddalwedd gael eu datrys.

8.2. **Penderfynodd** y Comisiwn gytuno â chynnwys yr adroddiad, yn amodol ar ddiwygiadau.
**Gweithredu: Swyddog Arolygu**

## 9. Porth Ymgynghori Ar-lein ar gyfer Arolygon

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 7 Mai 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ynghylch y porth ymgynghori ar-lein, sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan y Comisiynau yn Lloegr a’r Alban. Trafodwyd rhinweddau diogelwch a gweithredol y system mapio ar-lein, ac i ba raddau a modd y byddai’n ddefnyddiol i’r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol.

9.2. **Penderfynwyd** rhoi ystyriaeth bellach i’r cyfleuster.

9.3. **Cytunwyd** i gyflwyno cynnig â chostau i Lywodraeth Cymru, ac ystyried y mater ymhellach os oes cyllid ar gael.

## 10. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

10.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 7 Mai 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. Bydd y Comisiwn yn ystyried Arolwg Cymunedol Sir y Fflint yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mehefin.

10.3. Roedd Adroddiad Terfynol Drafft Rhondda Cynon Taf eisoes wedi'i ystyried yn y cyfarfod hwn.

10.4. **Nododd** y Comisiwn fod Arolwg Cymunedol Caerdydd yn mynd rhagddo.

10.5. Roedd y Comisiwn wedi cael hysbysiad newid enw gan Fro Morgannwg. Mae'r hysbysiad yn cyfeirio at newid enw Cyngor Cymuned Llanfihangel i Gyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd.

10.6. **Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 11. Calendr digwyddiadau

11.1. Bydd y Comisiwn yn ystyried dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn a gynhelir ym mis Ionawr, mis Chwefror a mis Mawrth 2016.

11.2. **Nodwyd** y calendr digwyddiadau.

## 12. Unrhyw fater perthnasol arall

12.1. Caiff yr adroddiad blynyddol ar yr iaith Gymraeg ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

12.2. Nid oedd unrhyw fater perthnasol arall.

## 13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015.